



**Adroddiad Blynyddol**  
**Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad**  
**Troseddwyr Ifanc y Parc**  
**Mawrth 2012 – Chwefror 2013**

**Dyddiad Cyhoeddi 25 Gorffennaf 2013**

*Monitro Tegwch a Pharch i Bobl yn y Ddalfa*

## **1 CRYNODEB O'R CYNWYS**

Adran 1	Crynodeb o'r Cynnwys
Adran 2	Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol
Adran 3	Disgrifiad o'r Carchar
Adran 4	Crynodeb Gweithredol
Adran 5	Meysydd y mae'n rhaid i'r Bwrdd adrodd arnynt:
Adran 5A	Uned Pobl Ifanc
Adran 5B	Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Adran 5C	Addysg, Dysgu a Sgiliau
Adran 5D	Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl
Adran 5E	Gweithgaredd Buddiol
Adran 5F	Ailsefydlu
Adran 5G	Carcharu Diogelach
Adran 5H	Gwahanu, Gofal a Gwahanu, Goruchwylio manwl
Adran 5I	Gwasanaethau Preswyl
Adran 6	Meysydd eraill y mae'r Bwrdd yn dymuno adrodd arnynt:
Adran 7	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol:

## 2 RÔL STATUDOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob carchar a chanolfan remánd gael eu monitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref / Gweinidog Cyfiawnder, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar neu'r ganolfan wedi'u lleoli.

Cyfrifoldebau penodol y Bwrdd yw:

- (1) Bodloni ei hun bod y rhai a ddelir yn y ddalfa o fewn ei garchar yn cael eu trin yn drugarog ac yn gyfiawn, a bod amrywiaeth ddigonol o raglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau.
- (2) Hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y gwêl yn dda, yn brydlon am unrhyw bryderon sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi cyrraedd y safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y rheini yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael at unrhyw garcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd gofnodion y carchar.

### 3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR/SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC

Mae Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc yn sefydliad lleol Categori B ac yn sefydliad Troseddwr Ifanc gydag Uned Fach Pobl Ifanc sydd â:

- i) Llety Gwaelodlin Ardystiedig Arferol o 1,170 o oedolion ac oedolion ifanc.
- ii) Cynhwysedd gweithredol cyfredol (ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf mewn cromfachau) o 1439 (1,451), sy'n cynnwys 1,197 (1,149) o oedolion, 201 (257) o droseddwy'r ifanc, a 41 (45) o bobl ifanc. [cyfartaledd poblogaeth ar 28 Chwefror 2013]

Agorwyd Carchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ar 17 Tachwedd 1997, a dyma'r unig garchar preifat yng Nghymru. Caiff ei reoli gan Wasanaethau Gofal a Chyfiawnder G4S ar ran Gwasanaethau Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol. Cafodd llawer o staff y carchar eu recriwtio o'r ardal leol.

Yn gyffredin â'r holl sefydliadau dan gytundeb, mae Rheolwr gan Garchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc. Mae'r Rheolwr yn rheoli'r cytundeb 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac mae'n uniongyrchol gyfrifol i Gyfarwyddwr Rheoli Troseddwy'r (Cymru).

Asiantaeth sy'n cyflenwi gwasanaethau:

Gwasanaethau Llyfrgell – Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr

Sefydliadau Gwirfoddol:

Ymddiriedolaeth y Tywysog  
Cynllun Gwobrau Dug Caeredin  
Gwobrau Ymddiriedolaeth Koestler – Celfyddydau gan Droseddwy'r  
Undeb y Mamau – cymorth gyda chyfleusterau meithrinfa  
Samariaid – gan gynnwys hyfforddi Gwrandawyr  
Gŵyl Lenyddol y Gelli

Ymysg ymwelwyr adnabyddus â'r sefydliad yn ystod y flwyddyn yr adroddir arni roedd:

Y Fonesig Ursula Brennan DCB, Is-Ysgrifennydd Gwladol Parhaol yng Ngweinyddiaeth  
Cyfiawnder y Deyrnas Unedig (Rhagfyr 2012)  
Huw Lewis AC, Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Dai, Adfywio a Threftadaeth

## **4 CRYNODEB GWEITHREDOL**

### **A. Materion penodol a godwyd yn yr adroddiad y mae'r Bwrdd yn gofyn am ymateb arnynt**

Fe wnaeth y penderfyniad i leihau'r nifer o garcharorion yn ystod 2013 arwain at leihad o 50 yn nifer y staff dros ychydig fisoedd ac fe gafodd hyn effaith amlwg ar forâl staff.

Mae'r nifer o farwolaethau yn y ddalfa'n adlewyrchu cynnydd mewn poblogaeth hŷn a darpariaeth o lety a chyfleusterau arbenigol iddynt yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc. Er bod rhai cwestau heb gael eu cwblhau eto nid oedd unrhyw farwolaethau'n hunan-laddiadau.

Gyda phoblogaeth mor fawr yn y carchar, mae'n resyn nad oes bob amser ddigon o gyrsiau i garcharorion gyrraedd targedau a osodwyd ar gyfer eu hail-gategoreiddio neu gynllun dedfryd. Roedd 190 o ymgeiswyr am un cwrs o'r fath ar Empathi Dioddefwyr, gydag ond dau gwrs ar gael o 25 o leoedd yr un.

### **B. Pryderon y flwyddyn ddiwethaf**

Roedd y Bwrdd yn falch o nodi bod y digwyddiadau a adroddwyd, a oedd yn anghymesur o uchel yn yr Uned Pobl Ifanc, bellach yn cael eu cofnodi ar wahân, ac nad ydynt yn cael yr un effaith niweidiol ar lefel statws y carchar.

Mae penodi Crwner newydd ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr wedi lleihau'r amser aros am gwest i lefel ddigonol.

### **C. Materion eraill**

Mae rhai llwyddiannau nodedig yn cynnwys:

Cyfranogiad a phartneriaethau gyda sefydliadau allanol sy'n cynnwys carcharorion wrth ehangu eu gwybodaeth a sgiliau.

Mae nawdd gan gwmnïau allanol wedi arwain at rai carcharorion yn cael cynnig cyflogaeth wrth gael eu rhyddhau. Mae'r carchar yn haeddu cael ei longyfarch ar y pwysigrwydd y mae'n ei roi ar hyfforddi carcharorion ar gyfer gofynion bywyd y tu allan.

Mae Hay in the Parc, ar y cyd â Gŵyl Lenyddol y Gelli bellach yn ei chweched blwyddyn.

Mae Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn cynnal sesiynau rheolaidd yn y Parc.

Mae rhai carcharorion wedi cael eu cynnwys mewn cloddio archeolegol yn yr hen Gaer Rufeinig yng Nghaerwent.

Fe wnaeth y Parc unwaith eto gyflawni llwyddiant nodedig yn holl gategoriâu Gwobrau Koestler, gan ennill 91, y mwyaf gan unrhyw sefydliad yng Nghymru a Lloegr. Cafodd saith darn o waith eu harddangos yn y Royal Festival Hall ac roedd arddangosiad mawr a thrawiadol yn cael ei arddangos i'r cyhoedd yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd dros gyfnod o sawl wythnos.

Mae'r prosiect Waliau Anweledig ar yr Uned Teuluoedd a'r ymyriadau teuluol eraill yn parhau i ennill clod.

Yn Wythnos y Lluoedd Arfog codwyd y swm anhygoel o £1000 at yr elusen Healing the Wounds.

Dyfarnwyd i'r Parc ddwy Wobr Rhagoriaeth y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ac un wobwr Rhagoriaeth Gofal a Chyfiawnder i gydnabod gofal a rheolaeth carcharor a wrthododd â bwyta.

Mae'r Parc yn archwilio'r posibilrwydd o gyfrif Skype i alluogi carcharorion tramor nad ydynt yn derbyn ymweliadau i gyfathrebu.

## **5A UNED POBL IFANC (gwrywod 15-17 oed)**

Poblogaeth gyfartalog yr uned yw 42 (wedi ei hollti rhwng dau leoliad), a all gynyddu yn y flwyddyn adrodd nesaf. Mae'r Bwrdd yn monitro'r uned yn wythnosol, ac yn ymweld deirgwaith yr wythnos ar gyfartaledd.

Caiff yr uned ei rheoli'n dda gyda staff yn cael eu cyflogi i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. Mae pob person ifanc yn mynychu addysg, a chyflawnir achredu ar lefel uchel, o ganlyniad i gefnogaeth ddwys.

Mae'r Bwrdd yn ymweld â'r rheini sydd wedi eu gwahanu'n benodol (lle maent y tu ôl i'w drysau) ac yn monitro hyn fel arfer dda. Mae pryder a yw hyn yn briodol lle rhennir celloedd. Cyfanswm nifer yr achlysuron pan oedd pobl ifanc ar wahaniad yn ystod y flwyddyn riportio gyfredol oedd 304. Ymddengys hyn yn uchel, fodd bynnag gall y person ifanc hwnnw fod ar wahaniad am un diwrnod yn unig, neu wedi ei wahanu ar fwy nag un achlysur.

Mae staff yn ymdrin â digwyddiadau'n gyflym ac yn effeithlon ac yn aml yn ceisio tawelu sefyllfa, ond gall y grŵp hwn o garcharorion fod yn anwadal iawn. Cyfanswm nifer y digwyddiadau o Fawrth 2012 hyd Fawrth 2013 oedd 260 (mae hyn yn cynnwys hunan-niweidio, mân-ddigwyddiadau amrywiol a digwyddiadau Defnyddio Grym).

Mae'r uned yn rhedeg amryw o raglenni. Mae'r rhaglen a ddilynir yn penderfynu ar y nifer o oriau sydd gan y person ifanc y tu allan i'w gell. Mae hyn yn gynllun symbylu i'r person ifanc fod allan o'i ystafell fwy, os yw'n gweithio hyd eithaf ei allu.

Mae'r carchar yn gweithio'n dda i sicrhau bod yr uned yn mynd i'r afael ag aildroseddu ymhlith y bobl ifanc ac yn ceisio darparu gweithgareddau targyfeiriol cynhyrchiol gyda'r bobl ifanc. Gall y Bwrdd adrodd bod yr uned yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn effeithiol wrth geisio diwallu anghenion pobl ifanc.

***Fe wnaeth Prif Weithredwr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Phennaeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru adrodd bod eu hymweliad â'r Uned Pobl Ifanc yn un o'r rhai gorau yn eu profiad.***

## **5B CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT**

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant yng Ngharchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cynnwys Rheolwr Anabledau, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Swyddog Dinasyddion Tramor. Caiff gwaith y tîm ei fonitro'n gyson gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd deufisol, wedi eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr.

Roedd enghreifftiau o'r materion a ystyriwyd yn cynnwys:

Mae gan y Parc un carcharor trawsrywiol sydd yn y broses o ailgyfeirio rhywiol, nad yw'n profi unrhyw wahaniaethu.

Mae'r carchar yn cydnabod gofynion carcharorion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) ac yn trefnu i siaradwyr o'r tu allan siarad ar y materion hyn – yn fwyaf diweddar cafwyd ymweliad gan Stephen Fray a chan gynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Terrance Higgins.

Mae'r Parc yn garchar amrywiol yn ddiwylliannol gyda phoblogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) o 11.7%. Nid yw hyn yn adlewyrchu poblogaeth yr ardal leol nac o broffil y staff sy'n parhau ar 2.7% BME.

## 5C ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Caiff carcharorion eu hasesu ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol neu anghenion addysgol eraill, yn ystod cwrs ymsefydlu chwe wythnos gydag athro sy'n cynnwys Sgiliau Sylfaenol ar Lefelau 1, 2 a 3 i gael eu gwerthuso.

Mae cyrsiau galwedigaethol, TGAU, Lefel A a'r Brifysgol Agored ar gael. Mae dros 120 o garcharorion ar unrhyw un adeg ar gyrsiau dysgu o bell sy'n cynnwys amrywiaeth o bynciau, ac mae hyn wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn. Mae'r carchar yn gobeithio ymestyn ei ddarpariaeth o'r cyrsiau hyn.

Mae carcharorion y siaradwyd â hwy yn ystod y monitro wedi cadarnhau eu bod yn mwynhau eu cyrsiau. Maent wedi dweud bod addysg yn rhoi hyder iddynt a theimlant eu bod yn cael eu trin â pharch. Maent yn gobeithio y bydd yn eu helpu i gael gwaith cyflogedig pan gânt eu rhyddhau o'r carchar. Maent yn gwbl ymwybodol o gosbau'r gyfundrefn os nad ydynt yn mynychu addysg.

***Gan fod gan y mwyafrif o garcharorion mewn addysg ddedfrydau o dros 12 mis, i lawer ohonynt dyma'r tro cyntaf y mae addysg wedi chwarae rhan allweddol yn eu bywydau.***

## 5D GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

Mae presenoldeb da yn y mwyafrif o glinigau; gyda phresenoldeb gwael ar brydiau yn y Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl. Mae canran fach o garcharorion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau ond mae hyn yn arwain at y staff yn mynd i'r adran i wirio arnynt fel bo'n angenrheidiol.

Mae bellach un Deintydd sy'n gweithio'n llawn-amser, a dau dechnegydd Deintyddol. Rhyngddynt maent yn darparu saith sesiwn ddeintyddol yr wythnos. Mae hyn wedi helpu lleihau'r rhestr aros yn sylweddol.

Mae deuddeg o sesiynau meddyg teulu bob wythnos, darperir y rhain gan bedwar meddyg teulu sydd wedi eu contraction i'r gwasanaeth.

***Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r system rheoli apwyntiadau er mwyn sicrhau bod carcharorion yn mynychu apwyntiadau mewn pryd o'u hunedau neu leoliad cyflogaeth i leihau gwastraffu amseroedd apwyntiadau.***

## 5E GWEITHGAREDD BUDDIOL

Mae 11 o weithdai a naw o feysydd eraill lle mae cyflogaeth fuddiol yn digwydd. Ethos cyflogaeth yw dysgu sgiliau i garcharorion ac felly ennill cymwysterau megis NVQ a City and Guild sydd o ddefnydd yn y farchnad lafur. Dylai'r rhain alluogi carcharorion i gael hyd i waith yn haws wrth gael eu rhyddhau. Mae 29 o hyfforddwyr yn hyfforddi tua 397 o garcharorion yn yr amrywiol sgiliau, er enghraifft gosod briciau, mechanics ceir, paentio a saernïaeth. Fodd bynnag, fel yr ydymwedi ei nodi mewn adroddiadau cynharach mae'r gymhareb rhwng y lleoedd hyfforddiant a phoblogaeth gyffredinol y carchar yn dal i fod yn



rhy isel, ond mae'n gwella flwyddyn ar flwyddyn. Nid yw pob carcharor yn addas na hyd yn oed ag awydd i dderbyn hyfforddiant.

***Mae nawdd gan gwmnïau o'r tu allan wedi arwain at rai carcharorion yn cael cynnig gwaith cyflogedig pan gânt eu rhyddhau.***

Caiff 12 o garcharorion eu cyflogi yn yr Adran Garddwriaeth yn edrych ar ôl tiroedd y carchar, gan gynnwys y gwelyau blodau ysblennydd ymhobman o gwmpas y carchar. Caiff y planhigion eu tyfu mewn twneli plastig ledled tiroedd y carchar i'w defnyddio ar y safle gydag unrhyw rai dros ben yn cael eu gwerthu i staff ac ymwelwyr. Mae waliau cerrig sych wedi cael eu codi yng nghanol y tiroedd gyda gwrychoedd o amgylch a gwelyau dyrchafedig. Mae hyn wedi rhoi cyfle dysgu gwerthfawr i lawer o garcharorion.

Caiff 12 o garcharorion eraill eu cyflogi yn y Ganolfan Anifeiliaid yn edrych ar ôl merlod, geifr, mulod a chywion ieir. Caiff yr anifeiliaid hyn eu cadw yn y ganolfan anifeiliaid a godwyd i'r pwrpas. Mae'r carcharorion yn dangos ymrwymiad a diddordeb yn yr hwsmonaeth anifeiliaid sydd ynghlwm â'r gwaith ac unwaith eto mae wedi dod yn gyfle dysgu gwerthfawr mewn gofalu am anifeiliaid.

## **5F AILSEFYDLU**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn yr Uned Teuluoedd gydag ymyriadau i garcharorion a theuluoedd fel ei gilydd.

Mae Pare wedi derbyn grant o £m + gan Gronfa'r Loteri Fawr i ddymchwel "waliau anweledig" trwy ddarparu rhaglenni sydd wedi eu cynllunio ar gyfer lleihau aildroseddu a chynyddu cynhwysiant cymunedol.

Mae rhaglenni fel "Fathers Inside" yn dysgu sgiliau rhianta yn benodol i helpu carcharorion i gynnal diddordeb yn addysg eu plant tra byddant yn y carchar. Mae "Time for Families" yn dysgu sgiliau perthynas ac mae'r sgiliau hyn yn cryfhau perthnasoedd teuluol. Mae perthnasoedd teuluol cryf o fudd i holl aelodau'r teulu ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae llawer o raglenni eraill ar gael sy'n cael eu cyflwyno gan staff gweithgar ymroddedig.

***Mae llwyddiant Parc yn Cefnogi Teuluoedd mor bellgyrhaeddol fel ei fod yn dod ag ymwelwyr i'r Parc o sefydliadau o Brydain a thramor er mwyn gweld y rhaglenni hyn ar waith.***

## **5G CARCHARU DIOGELACH**

Roedd problemau a adnabuwyd gyda'r broses ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) yn gynharach eleni lle nad oedd elfennau bob amser yn cael eu cwblhau a lle'r oedd gwiriadau'r rheolwyr wedi methu ag adnabod y diffygion hyn o fewn y dogfennau. Fodd bynnag, mae ansawdd ACCT bellach yn cael ei fonitro gyda rheolwyr perthnasol yn mynychu adolygiadau i sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud gan bob adran a gwybodaeth addas yn cael ei gofnodi mewn dogfennau a chyfeiriadau'n cael eu gwneud. Mae presenoldeb da iawn bellach yn yr adolygiadau 28 diwrnod a chaiff rhestr ddyddiol bob ACCT agored ac o unrhyw ddigwyddiadau eu cylchredeg i staff perthnasol. Mae pob person ar ACCT yn cael ei roi ar y rhestr. Bydd aelod o'r Tîm Carcharu Diogelach mewn cyswllt rheolaidd ag aelodau teuluoedd carcharorion gydag anghenion arbennig. Gall y teuluoedd hefyd gysylltu ag aelod o'r Tîm Carcharu Diogelach ar unrhyw adeg petai ganddynt byderon.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y Tîm Carcharu Diogelach a chaiff y rhain eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr. Mae'r IMB a'r Samariaid yn cael eu gwahodd i fynychu. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng Gwrandawyr, y Samariaid a'r Tîm Carcharu Diogelach. Cynhelir cyfarfod misol gydag aelod o'r Tîm Uwch Reolwyr. Mae gwrandawyr yn gallu codi unrhyw faterion sydd ganddynt yn y cyfarfodydd hyn. Y brif gŵyn sydd ganddynt yw'r amser mae'n ei gymryd i symud rhwng adrannau'r carchar.

Mae Rheolwr Lleihau Trais newydd yn ei swydd, a'i nod yw gweithredu ar gynlluniau i leihau digwyddiadau treisiol yn y Parc. Yn ôl holiaduron carcharorion sy'n gadael, caiff prif achos trais ei adnabod fel meddu ar faco, sy'n cael ei ddilyn yn agos gan ddyledion. Mae staff yn cydnabod digwyddiadau o fwlio yn ei ffurfiau gwahanol ac mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith i oresgyn hyn.

Mae'r Uned Carcharu Diogelach yn parhau i gefnogi carcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl cymhleth mewn lleoliad bach distaw. Mae celloedd carcharu diogelach ar ddwy adran bellach wedi eu neilltuo fel Celloedd Noson Gyntaf ar gyfer ymsefydlu.

Roedd wyth marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd. Mae dau gwest wedi cael eu cynnal a chofnodwyd marwolaeth trwy achosion naturiol yn y ddau. Mae disgwyl i dri chwest gael eu cynnal ym mis Mawrth 2013. Ni chafodd dim o'r marwolaethau eu riportio fel hunanladdiadau.

Mae nifer o garcharorion ar yr Uned Pobl Hŷn wedi derbyn gofal lliniarol gyda help Gofal Canser Macmillan. Mae aelodau o deuluoedd carcharorion nad oes gwella iddynt wedi cael eu caniatáu i'r adran i ymweld â'u perthynas. Mae staff ar fin cael eu hyfforddi gan Macmillan I gefnogi'r carcharorion hyn a'u teuluoedd. Rhoddir hyfforddiant hefyd i staff adnabod yr arwyddion cynnar o ddementia mewn carcharorion. Rhoddir cymorth perthnasol hefyd i staff gofal iechyd pan fo carcharorion yn dychwelyd o'r ysbyty ar ôl cael diagnosis o ganser.

***Dylid canmol Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwr Ifanc y Parc am y ffordd y maent wedi gofalu am y carcharorion hynny gyda phroblemau iechyd ac iechyd meddwl cymhleth a'u teuluoedd.***

***Fe wnaeth yr Archwiliad Carcharu Diogelach ym mis Ionawr 2013 gan y Gwasanaeth Carchardai arwain at ddyfarniad "GWYRDD" sef y lefel uchaf y gellir ei chyrraedd.***

## **5H GWAHANU, GOFAL A GWAHANU, GORUCHWYLIO MANWL**

Mae'r adain Gofal a Gwahanu'n cynnwys 24 o gelloedd, lle gellir monitro rhai ohonynt â chamera o swyddfa'r adain. Mae yna 21 o gelloedd ar gyfer gwahanu, mae un heb ei dodrefnu ac mae dwy'n gelloedd arbennig a ddefnyddir ar ôl digwyddiadau difrifol.

Mae hon yn uned sydd wedi'i rheoli'n dda ar bob lefel, ac mae'r Bwrdd yn fodlon gyda lefelau staffio, diogelwch y lleoliad a'r carcharorion a bod yr holl waith papur yn cael ei gyflawni a'i ddiweddar.

Mae'r Bwrdd yn fodlon gyda'r ffordd y caiff y Cyfarfodydd Adolygu eu cynnal a'u cadeirio, gan fynychu'r mwyafrif o adolygiadau 72 awr a'r cyfan o rai 14 diwrnod. Mae'r Bwrdd, fodd bynnag, wedi bod yn bryderus bod y cynrychiolydd Gofal Iechyd yn aml yn cael ei ddal yn ôl, gan beri bod y cyfarfod yn cychwyn yn hwyr. Mae gwelliannau yn y maes hwn wedi cael eu nodi'n fwy diweddar.

Mae'r Bwrdd bob amser yn cael gwybod am symudiadau i'r adain hon, yn enwedig y rheini o natur ddisgyblaethol ac mae'n fodlon bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn yn yr achosion o gyfyngu mewn cell neu brotestiadau budr. Yn ystod unrhyw wythnos caiff pob carcharor ei weld gan yr aelod o'r Bwrdd sydd ar ddyletswydd, a fydd yn siarad yn rhydd ag ef.

Mae'r Bwrdd yn nodi'r ymyriadau newydd canlynol sydd ar gael i garcharorion sydd wedi cael eu hasesu'n addas ar eu cyfer: Yoga, Stopio a Meddwl (i garcharorion reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad, gyda nodau penodol cyraeddadwy), Rheoli Dicter, a Rheoli Straen (gyda'r nod o gynyddu hunan-barch a hyder).

Mae'n rhy gynnar i farnu llwyddiant y rhaglenni ymyrryd newydd hyn wrth leihau ymddygiad problematig. Fodd bynnag, un peth sydd wedi creu argraff ar y Bwrdd yw bod niferoedd y rheini yn yr adain hon wedi lleihau'n sylweddol ers i'r gyfundrefn newydd gychwyn ar waith, ee o gyfartaledd o 15 i saith dros y cyfnod o ddeuddeg mis.

Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol cafodd yr Uned Gofal a Gwahanu (CSU) ei hail-enwi'n Uned Cymorth Dwys ac Ailgyssylltu (ISRU). Er mwyn osgoi dryswch pellach o safbwynt ei ddiben cafodd ei ailfrandio wedyn fel Uned Phoenix.

***Trwy gydol y newid pwyslais, sydd â'r ailenwi'n symbol ohono, mae'r ffordd y mae staff wedi cychwyn ar y darpariaethau newydd ac wedi cymryd perchnogaeth o heriau newydd wedi creu argraff ar y Bwrdd.***

## **5I GWASANAETHAU PRESWYL (sy'n cynnwys llety, bwyd, arlwyo a cheginau)**

Mae colli 50 o swyddi wedi peri bod angen newidiadau yn y gyfundrefn.

Mae'r llety'n gyffredinol mewn celloedd sengl; er bod rhannu wedi dod yn fwyfwy angenrheidiol yn ddiweddar.

Ac eithrio brecwast, caiff prydau eu cyd-fwyta yn y rhan mynediad rhydd o bob adain.

Mae newidiadau i ginio ysgafn a phryd poeth gyda'r nos wedi cael eu derbyn yn gyffredinol, er bod rôl wedi'i llenwi ganol dydd yn ymddangos yn annigonol i'r rheini mewn gwaith.

Mae cynlluniau ar droed i agor cegin hyfforddi.

## **6 MEYSYDD ERAILL**

Ym mis Ionawr 2013 roedd 52 o garcharorion a oedd yn ddinasyddion tramor yn cael eu cadw yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc, gyda chwech ohonynt wedi cwblhau eu dedfrydau (roedd y chwech hyn o Wlad Pwyl, Somalia, Eritrea, Iran a China).

Ymddengys nad yw carcharorion yn gwybod pwy yw eu Swyddog Personol. Mae hyn yn fater o bryder.

Mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn fwy na digonol ac mae'n cynnwys ystafell breifat i deuluoedd ymweld. Mae gwirfoddolwyr Cefnogi Teuluoedd y carchar am dderbyn hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Mae caplaniaid wedi cael eu penodi fel bo'r angen ar gyfer 19 o garcharorion Bwdiaidd a 4 o garcharorion Sikh.

## 7 GWAITH Y BWRDD

Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol, 2012-2013, cafodd tri aelod newydd eu penodi. Maent wedi bod yn cysgodi cydweithwyr ar ddyletswydd rota ac yn disgwyl i weithredu eu cyfrifoldebau'n llawn ym mis Gorffennaf 2013. Maent wedi mynychu sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd gan staff y carchar, wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd, ac wedi bod i hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch, Ymwybyddiaeth Allweddol, Diogelwch Personol, Amrywiaeth ac ACCT. Mae un aelod newydd eisoes wedi mynychu Cwrs Aelodau Newydd 2012 IMB. Ym mis Awst 2012, ymwelodd y Bwrdd â Charchar Dartmoor a chroesawyd ymweliadau â'r Parc gan Fyrddau eraill.

### CEISIADAU

<b>COD A PHWNC</b>	<b>2010-2011</b>	<b>2011-2012</b>	<b>2012-2013</b>
A LLETY	45	21	21
B DYFARNIADAU	12	6	17
C CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH	11	9	19
D ADDYSG/CYFLOGAETH/ HYFFORDDIANT (YN CYNNWYS CYNLLUN IEP)	54	42	42
E1 TEULU/YMWELIADAU (YN CYNNWYS POST A FFÔN)	102	101	88
E2 CYLLID/TÂL	6	1	1
F YMWNEUD Â BWYD/Y GEGIN	30	20	13
G YMWNEUD AG IECHYD	153	191	172
H1 EIDDO (WRTH DROGLWYDDO/ MEWN SEFYDLIAD ARALL)	36	61	26
H2 EIDDO (O FEWN Y SEFYDLIAD)	61	48	50
H3 FFREUTUR, CYFLEUSTERAU, SIOPA CATALOG	21	33	18
I YMWNEUD Â DEDFRYDAU (YN CYNNWYS ROTL, HDC, PARÔL, DYDDIADAU RHYDDHAU, AIL- GATEGOREIDDIO)	143	45	61
J STAFF / PRYDERON CARCHARORION GAN GYNNWYS BWLIO	50	55	74
K TROGLWYDDIADAU	31	26	36
L AMRYWIOL	123	107	126
<b>CYFANSWM NIFER Y CEISIADAU I'R IMB</b>	<b>878</b>	<b>766</b>	<b>764</b>